

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Teitl yr Adroddiad	Adroddiad ar ddyledion cinio
Dyddiad y cyfarfod	22 Tachwedd 2018
Awdur	Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg
Swyddog Perthnasol	Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Aelod Cabinet Perthnasol	Cynghorydd Gareth Thomas

1. CEFNDIR

- 1.1 Daeth cais gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i ddyledion cinio ysgol fod yn eitem ar gyfer y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, yn sgil sylw yn y wasg fod cyfanswm dyledion cinio ysgol yng Ngwynedd yn £85,589.47.
- 1.2 Yn yr adroddiad hwn, ceisir cyfarch cais y Cadeirydd, gan alluogi aelodau'r Pwyllgor i graffu ar sefyllfa dyledion cinio ysgol, y prosesau sydd wedi bod yn weithredol er mwyn ymateb i sefyllfa o ddyledion, ynghyd â'r camau pellach y mae'r Adran wedi ac yn bwriadu eu gweithredu er mwyn ymateb yn briodol i'r sefyllfa, gan leihau dyledion cinio ysgol dros amser.
- 1.3 Mae'n deg nodi, fod sefyllfa dyledion cinio ysgol yn berthnasol i ysgolion cynradd yn unig, ac y gweithredir trefn wahanol yn yr ysgolion uwchradd. Yn yr ysgolion uwchradd gweithredir ar system caffeteria ble mae disgybl yn talu yn y fan a'r lle am y bwyd mae o/hi wedi'i ddewis.
- 1.4 Mae rhai ysgolion uwchradd yn symud i system talu ar-lein ble bydd rhieni yn talu o flaen llaw i gyfrif cinio disgybl, a bydd y disgybl yn gallu dewis bwyd hyd at werth yr hyn sydd wedi'i dalu ymlaen llaw.
- 1.5 Mae gweddill yr adroddiad hwn felly yn canolbwyntio ar ddyledion cinio ysgol yn ysgolion cynradd Gwynedd yn unig.

2. Y DREFN DYLEDION CINIO CYNRADD

- 2.1 Yn hanesyddol, bu trefn o ddefnyddio copiâu papur o 'Lyfrau Cinio' mewn ysgolion cynradd unigol. Roedd y 'Lyfrau Cinio' yn cadw cofnod o'r cinio ysgol oedd disgyblion yn eu cymryd a'r arian neu sieciau oedd yr ysgol yn eu derbyn i dalu am y cinio. Roedd Clerc Arian Cinio ysgol gynradd yn cysoni cyfrif pob disgybl yn wythnosol. Ar ddiwedd pob mis byddai'r Clerc Arian Cinio yn anfon ffurflen bapur at y Sir yn nodi sefyllfa arian cinio yr ysgol. Roedd y ffurflenni misol yn nodi cyfanswm y dyledion i'r ysgol.
- 2.2 Ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldeb o adnabod dyled ar gyfrif disgybl unigol yn disgyn ar yr ysgol, a disgwylir i'r ysgol anfon llythyr at rieni sydd ddim wedi talu am ginio ers pythefnos (gweler **Atodiad 1**).

- 2.3 Os nad oes rheswm dilys wedi'i dderbyn na thaliad wedi'i dderbyn o fewn pythefnos i'r llythyr cyntaf, mae ail lythyr i'w anfon yn dweud wrth rieni bod angen iddyn nhw wneud trefniadau gwahanol ar gyfer cinio eu plant nes y bydd taliad wedi'i dderbyn (gweler **Atodiad 2**). Er bod yr ail lythyr yn dweud na fyddai cinio yn cael ei ddarparu mwyach i'r disgybl, yn y mwyafrif o achosion nid yw'r ysgolion yn arddel polisi o wrthod rhoi cinio i unrhyw blentyn.
- 2.4 Os na fydd y ddyled wedi'i dalu ar ôl y ddau lythyr yma, mae disgwyl i'r ysgol drosglwyddo'r ddyled i'r Awdurdod. Pan fydd dyled yn trosglwyddo i'r Awdurdod bydd anfoneb yn cael ei godi ar y rhieni i'w dalu o fewn 28 diwrnod, a bydd y ddyled ar lyfrau'r ysgol yn cael ei glirio.
- 2.5 Mae'r Adran Addysg yn derbyn arian gan y Cyngor yn ganolog am werth yr anfoneb sy'n cael ei godi a bydd y Cyngor yn ganolog yn mynd ar ôl y ddyled gan y rhieni. Gall ad-ennill dyled gan rieni gymryd amser maith. Mewn ychydig o achosion, mae'r ddyled yn cael ei ddileu gan y Cyngor. Yn yr achosion hyn, ni fydd yr Adran Addysg yn derbyn yr arian sy'n ddyledus.
- 2.6 Mae rhai disgyblion yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim (PYD). Os na fydd yr hawl i PYD wedi'i adnabod yn amserol a bod dyled yn cronni gan ddisgybl, ond ei fod yn dod i'r amlwg yn hwyrach bod y disgybl i fod i fod wedi derbyn cinio am ddim, mae'r ddyled oedd wedi'i gronni ar lyfrau'r ysgol yn cael ei ddileu.

3. SEFYLLFA DYLEDION AR LYFRAU CINIO YSGOL

- 3.1 Mae'r ffigur a adroddwyd yn y wasg yn ddiweddar yn cynrychioli'r dyledion oedd ar Lyfrau Cinio'r Ysgolion ar ddiwedd Mawrth 2018.

Tabl A – Llyfrau Cinio Ysgol

Blwyddyn	Llyfrau Cinio Ysgolion		
	Incwm	Cyfanswm ôl-ddyledion cariyd ymlaen ym mis 12	Dyled mwyaf gan ysgol unigol
2013/2014	£2,904,884.34	£36,356.78	£2,490.50
2014/2015	£2,927,648.25	£32,173.01	£3,112.79
2015/2016	£3,157,313.56	£36,269.73	£7,015.27
2016/2017	£3,236,111.24	£69,289.33	£14,037.92
2017/2018	£3,123,362.23	£85,589.47	£17,990.09

- 3.2 Er gwybodaeth, y sefyllfa ar ddiwedd mis Hydref 2018 oedd cyfanswm ôl-ddyledion o £73,763.59 , gyda dyledion yn 81 (allan o'r 87) o ysgolion cynradd. Roedd y ddyled mewn ysgol unigol yn amrywio o £2.50 i £6,987.02, gyda 23 o ysgolion â dyledion o dros £1,000.
- 3.3 Gweler o'r tabl fod y dyledion ar lyfrau'r ysgolion wedi cynyddu'n sylweddol yn 2016-17 a 2017-18. Mae hyn yn cyfateb i'r blynyddoedd ble bu codiadau sylweddol ym mhpris cinio (yn gyntaf i £2.30 ym Medi 2016, ac wedyn i £2.50 ym Medi 2017), ond nid oes gennym dystiolaeth gadarn i brofi mai dyma'r sail dros y dyledion cinio ysgol.
- 3.4 Ar gyfer 2017-18 yn benodol, gwelir fod dyled un ysgol unigol bron yn £18k, (sydd dros yn 1/5 o'r holl ddyledion oedd mewn ysgolion).

- 3.5 Mae'r dyledion ar lyfrau'r ysgolion yn effeithio ar y swm a nodir fel 'diffyg incwm' sydd yn cael ei adrodd ar ran y Gwasanaeth Arlwyyo yn yr adroddiadau cyllidol a adroddir i'r Cabinet.

4. SEFYLLFA DYLEDION ANFONEBAU SY'N PARHAU'N DDYLEDUS

- 4.1 Mae'r ffigyrau yn y tabl uchod ac a gyhoeddwyd yn y wasg yn cynrychioli dyledion ar lyfrau cinio ysgol yn unig. Nid oedd y ffigwr yma'n cynnwys gwerth yr anfonebau a drosglwyddwyd i'r Awdurdod ac oedd yn parhau'n ddyledus ar 31 Mawrth 2018.

Tabl B - Dyledion a drosglwyddwyd i'r Awdurdod - Anfonebau

Dyledion a drosglwyddwyd i'r Awdurdod				
Blwyddyn	Nifer yr anfonebau a godwyd yn y flwyddyn	Gwerth anfonebau a godwyd yn y flwyddyn £	Gwerth yr anfonebau sydd dal yn ddyledus ar 31 Mawrth 2018 £	% o werth yr anfonebau sydd dal yn ddyledus ar 31 Mawrth 2018 %
2013/2014	352	£21,937.80	£4,797.45	21.87%
2014/2015	369	£26,600.12	£6,387.27	24.01%
2015/2016	392	£29,254.63	£9,823.22	33.58%
2016/2017	459	£36,634.45	£13,333.17	36.40%
2017/2018	469	£39,576.81	£16,890.63	42.68 %
Cyfanswm gwerth anfonebau sydd dal yn ddyledus ar 31 Mawrth 2018			£51,231.74	33.27%

- 4.2 O edrych ar sefyllfa'r 5 mlynedd diwethaf, roedd cyfanswm o **£136,821.21** (£85,589.47+ £51,231.74) yn ddyledus i'r Cyngor ar ddiwedd Mawrth 2018.

5. BETH ALLAI FOD WEDI ARWAIN AT Y SEFYLLFA BRESENNOL?

- 5.1 Efallai nad ydy pob ysgol wedi bod yn gweithredu'r drefn a nodir yn 1 uchod fel y dylen nhw - unai drwy beidio ag anfon llythyrau at y rhieni, neu drwy beidio â throsglwyddo'r dyledion i'r Awdurdod. Mae hyn wedi arwain at ddyledion yn cronni ar lyfrau'r ysgolion.
- 5.2 Yn hanesyddol roedd ffurflenni cinio misol ysgolion (oedd yn nodi dyledion) yn cael eu gyrru ymlaen at yr Uned Incwm oedd yn gwirio'r incwm yn unig. Doedd dim gweithdrefn benodol/ffurfiol ar gyfer monitro lefel dyledion ysgolion unigol, er eu bod yn cael eu cofnodi.

6. CAMAU SYDD EISOES WEDI EU CYMRYD GAN YR ADRAN

- 6.1 Tynhau ar weithrediad ysgolion o'r drefn a ddisgwyllir.
- 6.2 Yn ystod y flwyddyn addysgol 2017-18, cyflwynwyd dwy system newydd i ysgolion cynradd er mwyn (yn y pen draw) lleihau ar y gwaith gweinyddol oedd yn wynebu'r Clercod Arian Cinio. Derbyniodd pob ysgol system talu ar-lein sydd yn caniatáu i rieni wneud taliadau electronig yn syth i gyfrif cinio eu plant.
- 6.3 Hefyd, derbyniodd pob ysgol gynradd y system SIMS Dinner Money i gymryd lle y 'Llyfrau Cinio' papur. Mae SIMS Dinner Money yn cysoni cyfrif cinio pob disgybl yn awtomatig wrth dderbyn gwybodaeth am daliadau ar-lein (a wneir yn awtomatig wrth i rieni wneud taliadau trwy'r system ar-lein) a gwybodaeth am daliadau arian neu sieciau (sydd yn gorfod cael eu cofnodi gan y Clerc Arian Cinio). Mae'r system yn cynhyrchu adroddiadau electronig i gymryd lle'r ffurflenni papur o dan yr hen drefn, ac mae modd adnabod dyledion ar gyfrifon disgyblion unigol yn hytrach na dim ond cyfanswm y dyledion i ysgol
- 6.4 Mae'r 'llyfrau cinio' wedi eu disodli gan SIMS Dinner Money, sydd yn caniatáu i ni gael adroddiadau cyson, mwy penodol, am faint dyledion cinio ysgolion unigol. Bydd hyn yn hwyluso cefnogi ysgolion sydd i'w gweld angen cymorth i ymateb i sefyllfa dyledion yn cronni yn hytrach na'u trosglwyddo i'r Awdurdod. Mae angen sefydlu gweithdrefn benodol/ffurfiol ar gyfer monitro lefel dyledion ysgolion unigol.
- 6.5 Fel y gwnaed gyda'r ysgol oedd â dyled o bron i £18,000, mae'r Adran bellach yn gweithio'n agos efo ysgolion unigol sydd ddim i'w gweld yn trosglwyddo'r dyledion i'r Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys:
- Sicrhau bod y Pennaeth a'r Clerc Arian Cinio yn deall y drefn o sut i gasglu dyledion a thrafod y camau nesaf i'w cymryd ganddynt:
 - Cysylltu gyda rhieni i ddweud fod angen iddynt dalu ei dyledion erbyn rhyw ddyddiad penodol
 - Ar ôl y dyddiad yma, yr ysgol yn anfon taenlenni PY20 ymlaen i'r Awdurdod er mwyn trefnu codi anfonebau ar y rhieni yma.
- 6.6 Mae'r system talu ar-lein hefyd yn ei gwneud hi'n haws i deuluoedd dalu arian cinio ar adeg pan fydd hi'n hwylus iddyn nhw wneud hynny, gan fod y system ar gael 24/7. Dylai hyn arwain at lai o ddyledion.

7. CAMAU PELLACH I'W GWEITHREDU

- 7.1 Sicrhau fod pob ysgol yn ymwybodol o'r drefn i'w gweithredu pan fo dyledion arian cinio, ynghyd â'r mantais iddynt hwy o drosglwyddo'r ddyled i'r Sir. Yn yr un modd, datblygu gweithdrefn sydd yn monitro bod dyledion yn cael eu trosglwyddo gan ysgolion i'r Awdurdod yn amserol.
- 7.2 Sefydlu trefn ganolog o fynd ar ôl dyledion ar sail yr adroddiadau electronig, yn hytrach na disgwyl i'r ysgolion anfon y llythyrau rhybudd allan.
- 7.3 Sefydlu trefn o adnabod teuluoedd sydd yn mynd i ddyled yn aml neu'n gyson, gan eu cyfeirio at wasanaethau/asiantaethau fedr rhoi cymorth iddynt o ran materion ariannol.